OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2007 Rhif 122 (Cy.12)

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2007

Wedi'u gwneud - -	*23 Ionawr 2007*
Yn dod i rym - -	*25 Ionawr 2007*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 38, 39 a 126(4) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977(**1**) drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2006 a deuant i rym ar 25 Ionawr 2007.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) 1986

2.—(1) Diwygir Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) 1986(**2**) yn unol â darpariaethau canlynol y rheoliad hwn.

(2) Yn rheoliad 2(1) (dehongli)—

(a) yn lle'r diffiniad o "corporate optician" rhodder—

> ""corporate optician" means a body corporate registered in the register of bodies corporate maintained under section 9 of the Opticians Act 1989(**3**), which is carrying on business as an optometrist;" a

(b) yn lle'r diffiniad o "optician" rhodder—

> ""optician" means a person registered in the register of optometrists maintained under section 7 (register of opticians) of the Opticians Act 1989 or a corporate optician;".

(3) Yn rheoliad 9C(1) (achosion pan fo'n rhaid diswyddo ymarferydd), ar ôl is-baragraff (e), ychwaneger—

(**1**) 1977 p.49.
(**2**) O.S.1986/975.
(**3**) 1989 p.44.